BAGLORIAETH CYMRU CENEDLAETHOL/SYLFAEN

Amgueddfa Cymru








# Her Menter a Chyflogadwyedd

## GWEITHGAREDDAU MEITHRIN SGILIAU AR GYFER YR HER DREIALU

Cynllunio i Gydweithio

national museum wales
amgueddfa cymru

## Manteision gweithio fel tîm

Rhowch y penawdau isod yn eu trefn o ran manteision pwysicaf gweithio mewn tîm. Gallwch ychwanegu syniadau gan y dosbarth at y rhestr.

Boddhad


Sgiliau

Cefnogaeth

Creadigrwydd

Cyflymder

Bownsio syniadau




SHAI_HALUD/SHUTTERSTOCK.COM



## Nodweddion aelod effeithiol o dîm

Gan ddefnyddio'r penawdau isod, trafodwch y nodweddion hyn a gwnewch nodiadau i ddweud sut mae'r nodweddion yn helpu timau i gydweithio. Faint o'r nodweddion hyn sydd gennych chi?

Hyblyg • Cymryd rhan • Rhannu syniadau • Dibynadwy
Datrys problemau • Ymroddedig • Cyfathrebwr da • Da am wrando

PHOTOBYPHOTOBOY/SHUTTERSTOCK.COM

## Nodweddion tîm

Gan ddefnyddio'r penawdau isod, gweithiwch fel tîm i roi'r nodweddion yn nhrefn blaenoriaeth.

(1 **isel** o ran pwysigrwydd - 8 **uchel** o ran pwysigrwydd).

Hyblygrwydd

Cymryd rhan

Rhannu syniadau


Dibynadwyedd

Bod yn greadigol

Datrys problemau

Ymroddiad

Cyfathrebu'n dda




Gall timau drafod eu dewisiadau a chyrraedd eu nod yn gyflymach trwy ddefnyddio proses **bowndsio syniadau**.




GRAPHICSTORE/SHUTTERSTOCK.COM


Trwy rannu'r tasgau, cyflawnir y gwaith. Bydd pob aelod o'r tîm yn gweithio ar ei dasgau ei hun, a bydd y tîm yn **cefnogi** ei gilydd er mwyn cyrraedd y nod busnes yn **gyflymach**.




Mae gweithio fel rhan o dîm yn cynhyrchu egni a brwdfrydedd gan roi rhagor o **foddhad** i bawb.



Ystyr **creadigrwydd** mewn tîm yw cynhyrchu rhagor o syniadau o ganlyniad i amrywiaeth sgiliau’r tîm.



Pwynt allweddol: pan fydd tîm yn gweithio'n dda, mae ganddo ystod eang iawn o **sgiliau** er mwyn rhedeg busnes yn llwyddiannus.



# Swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Tîm

Rhaid i bob tîm gael aelodau sy'n cyflawni swyddogaethau penodol, diffiniedig.

Cysylltwch y disgrifiadau o'r swyddogaethau ar y chwith â'r teitlau ar y dde.

- Ysgogi'r tîm i gyflawni ei dasg
- Dim cyfrifoldebau penodol ond mae ei gyfranogiad yn hanfodol i lwyddiant y tîm
- Cadw pawb ar y trywydd iawn
- Monitro pa mor hir y mae'r tîm yn ei gymryd i gyflawni ei dasgau.
  Dweud wrth y tîm yn rheolaidd a ydynt yn defnyddio'u hamser yn dda ai peidio.
  Cydweithio ag arweinydd a hwylusydd y tîm ac eraill i baratoi amserlenni newydd os bydd angen addasu'r agenda.
- Cadw nodiadau, cofnodi penderfyniadau

- Arweinydd
- Hwylusydd
- Amserydd
- Cofnodydd
- Aelod o'r tîm

# Swyddogaethau a nodweddion y Tîm

Pwy fyddai'n gyfrifol am ba swyddogaeth yn eich tîm chi?



Arweinydd

Enw:

Sgiliau:



Amserydd

Enw:

Sgiliau:



Hwylusydd

Enw:

Sgiliau:



Cofnodydd

Enw:

Sgiliau:

## Prawf sgiliau

Oes gennych chi'r nodweddion angenrheidiol i lwyddo mewn menter? Cymerwch y prawf sgiliau isod!

www.enterprisecatalyst.co.uk

Ar ôl i chi orffen y prawf, trafodwch y nodweddion angenrheidiol os am lwyddo ym myd menter. Cytunwch ar y tri phrif nodwedd. Cofnodwch nhw yn y tabl gyferbyn, yn nhrefn eu pwysigrwydd.

| Y TRI PHRIF NODWEDD SYDD EU HANGEN AR UNIGOLION I LWYDDO YM MYD MENTER | |
|---|---|
| 1 | |
| 2 | |
| 3 | |

# Enw arall am fusnes yw menter

Mae menter yn disgrifio beth mae rhywun yn ei wneud pan fydd yn mentro trwy gymryd tipyn o risg wrth sefydlu busnes, buddsoddi ynddo a'i redeg.


SHAI HALUD/SHUTTERSTOCK.COM

# Gwasanaethau a chynhyrchion

O'r canlynol, pa rai sy'n wasanaeth a pha rhai sy'n gynnyrch?



## Cacennau

Cynnyrch ☐ Gwasanaeth ☐



## Taith Dywys

Cynnyrch ☐ Gwasanaeth ☐



## Cadwraeth

Cynnyrch ☐ Gwasanaeth ☐



## Caffi

Cynnyrch ☐ Gwasanaeth ☐



## Digwyddiadau

Cynnyrch ☐ Gwasanaeth ☐



## Bara

Cynnyrch ☐ Gwasanaeth ☐



## Arddangosiadau

Cynnyrch ☐ Gwasanaeth ☐



## Blancedi/Clustogau

Cynnyrch ☐ Gwasanaeth ☐

## Beth yw'ch syniadau busnes chi?

Fel grŵp, meddyliwch am gynifer o syniadau ag y gallwch ar gyfer eich menter busnes. Beth yw'r ffordd orau o wneud hyn?




MAYNEDABE/SHUTTERSTOCK.COM

# Ymchwil i'r farchnad

Paratowch holiadur byr i gael gwybod pwy fydd yn defnyddio'r gwasanaeth.

Gofynnwch am y canlynol:

- Grŵp oedran
- Gwryw / Benyw
- **Beth** mae'n ei wneud? Athro, myfyriwr ac ati
- **Pa un** o'r tri syniad busnes y byddent yn ei brynu
- **Faint** y byddent yn fodlon ei wario ar y cynnyrch/gwasanaeth

HORENKO/SHUTTERSTOCK.COM



RAWPIXEL/SHUTTERSTOCK.COM

# Cyfarfodydd Tîm

Bydd angen i chi gytuno ar yr atebion i'r cwestiynau hyn.

Sut bydd y tîm yn rhoi gwybod i bawb bod cyfarfod yn cael ei gynnal?

Pwy fydd yn rhedeg y cyfarfodydd hyn?

Pa mor aml fydd angen i'r tîm gyfarfod?

Beth yw pwrpas y cyfarfod?

Lle fydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal?

Pwy fydd yn gorfod dod i'r cyfarfodydd?

# Cofnodi cyfarfod – rhestr wirio

- Enwau'r sawl sy'n bresennol ✗
- Dyddiad ac amser y cyfarfod ✗
- Adolygiad o'r cynnydd hyd yma ✗
- Y penderfyniadau a wnaed ✗
- Y prif bwyntiau ✗
- Camau i'w cymryd a phwy sy'n gyfrifol ✗
- Dyddiad y cyfarfod nesaf ✗

**Enwau'r rhai sy'n bresennol:**

**Pwrpas y cyfarfod:**

**Dyddiad/amser:**

| Pwnc | Trafodaeth | Camau i'w cymryd | Y sawl sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|
| 1. | | | |
| 2. | | | |
| 3. | | | |

## Cymorth a chefnogaeth

Penderfynwch at bwy y byddwch yn troi (os bydd angen cymorth arnoch) i redeg y fenter fusnes.

Gwefan

Athro

# CYMORTH!

Cynghorydd Gyrfaoedd

Tiwtor Dosbarth

Rhiant/
Gwarcheidwad

Entrepeneur

GORDANA SIMIC/SHUTTERSTOCK.COM

## Beth yw ymgyrch hyrwyddo?

Rhestrwch ffyrdd o hyrwyddo'r fenter.

## Gweithgareddau hyrwyddo

Cysylltwch y gweithgaredd hyrwyddo â'r diffiniad cywir.

- Cynnig rhodd neu gyfle i ennill gwobr pan fyddwch yn defnyddio gwasanaeth.
- Dangos eich gwasanaeth mewn ffordd fydd yn denu pobl i'w ddefnyddio.
- Trafod y gwasanaeth gyda'r cwsmer a dweud pam y dylai ei brynu.
- Mae i-farchnata, gwe-farchnata, marchnata ar-lein ac e-farchnata yn enwau ar ffyrdd o farchnata cynhyrchion a gwasanaethau dros y we.
- Cyfathrebu â chwsmeriaid trwy'r teledu, y radio, papurau newydd a thaflenni.
- Cael sylw i'r busnes am ddim mewn papur lleol trwy wneud stori newyddion am y busnes.
- Ariannu digwyddiad neu dîm lleol er mwyn sicrhau bod pawb yn adnabod enw'ch busnes.

- Gwerthu personol
- Marsiandïaeth
- Hysbysebu
- Ymgyrchoedd gwerthu
- Cysylltiadau cyhoeddus
- Nawdd
- Marchnata ar y we

## Deunyddiau/ymgyrch hyrwyddo

Trafodwch fanteision ac anfanteision y gweithgareddau a restrwyd uchod.
Llenwch y tabl isod gan nodi prif fantais ac anfantais pob un.

| | Prif fantais | Prif anfantais |
|---|---|---|
| Gwerthu personol | | |
| Marsiandïaeth | | |
| Hysbysebu | | |
| Ymgyrchoedd gwerthu | | |
| Cysylltiadau cyhoeddus | | |
| Nawdd | | |
| Marchnata ar y we | | |

## Costio a phrisio'r gwasanaeth neu gynnyrch

Mae deall sut mae prisio syniad newydd, gwreiddiol yn gam pwysig yn y broses o lansio busnes llwyddiannus. Mae popeth yn costio arian, ond gall syniadau da wneud elw.

### Er enghraifft: costau gwerthu cacennau

**Deunyddiau/cynhwysion**

*Bydd y costau hyn yn cynyddu wrth i chi gynhyrchu mwy. Enw arall arnynt yw costau cyfnewidiol.*

| Eitem: | Cost (£) |
|---|---|
| Fflŵr | 0.20 |
| Menyn | 0.30 |
| Siocled | 1.00 |
| Siwgr | 0.20 |
| Wyau | 0.20 |
| Eisin | 0.20 |
| Tun cacennau | 1.00 |
| **Cyfanswm** | **3.10** |

**Costau eraill**

*Fydd y costau hyn ddim yn newid, waeth faint o gynhyrchion/gwasanaethau fyddwch chi'n eu cynhyrchu.*

| Eitem: | Cost (£) |
|---|---|
| Cyflogau staff | 12,000 |
| Rhent y siop | 10,000 |
| Gwres a golau | 5,000 |
| Yswiriant | 2,000 |
| Nwy a thrydan | 3,000 |
| Hysbysebu | 500 |
| | |
| **Cyfanswm** | **32,500** |

## Costio a phrisio'r fenter

Mae rhedeg busnes yn costio arian. Er mwyn llwyddo, bydd angen i chi gynllunio'ch sefyllfa ariannol.

Bydd angen i chi benderfynu faint y bydd yn ei gostio i chi baratoi'ch cynhyrchion neu'ch gwasanaeth.

- A fydd angen i chi brynu/llogi offer?
- A fydd angen i chi brynu deunyddiau?
- A fydd yn costio mwy i Amgueddfa Cymru mewn costau cyffredinol fel gwres, cyflogau ac ati?

# Costio a phrisio gwasanaeth neu gynnyrch

Amcangyfrifwch gostau cynhyrchu a gwerthu gwasanaeth ar gyfer Amgueddfa Cymru. Gallech ddefnyddio'r tabl costio isod i'ch helpu.

| Gwariant Datblygu'r Syniad Busnes | |
|---|---|
| **Eitem/gwasanaeth** | **Cost (£)** |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| Cyfanswm: | |

# Beth ydych chi wedi'i ddysgu am weithio gyda'ch gilydd?

| Beth yw'r sialensiau sy'n codi wrth weithio gyda'ch gilydd? Penderfynwch ar y chwe phrif her a'u nodi isod. | |
|---|---|
| Her | Ffyrdd o'i goresgyn |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |